OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 102 (Cy. 19)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Chwefror 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *3 Chwefror 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2023.

### Diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

**2.** Yn adran 10(2)(b)(ii) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (adolygu mapiau)(**2**), yn lle "ten" rhodder "fifteen".

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

1 Chwefror 2023

(**1**) 2000 p. 37. Mae adran 45(1) yn diffinio "regulations" yn Rhan 1 o'r Ddeddf (o ran Cymru) fel rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd adran 10(2) gan O.S. 2013/514. Mae diwygiad arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37) ("y Ddeddf") o ran Cymru.

Mae adran 10(2) o'r Ddeddf yn rhagnodi'r cyfnodau amser y mae rhaid i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (fel y corff cefn gwlad priodol o ran Cymru) gynnal ynddynt adolygiadau cychwynnol a dilynol o fapiau a ddyroddir ganddo ar ffurf derfynol o dan adran 9 o'r Ddeddf, gan ddangos tir comin cofrestredig a chefn gwlad agored yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2)(b)(ii) o'r Ddeddf er mwyn estyn y cyfnod hiraf rhwng adolygiadau dilynol ar ôl adolygiad cyntaf, o 10 mlynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol, i 15 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.